

SL(6)532 – Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol yn sefydliad o dan adran 83(4) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Maent yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan ddarparwr sy'n gwneud cais am ddynodiad yn sefydliad, ynghyd â'r broses o wneud penderfyniadau a'r weithdrefn ar gyfer tynnu dynodiad yn ôl.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 2, mae diffiniad sy'n nodi mai ystyr "Deddf 2022" yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fodd bynnag, yn y diffiniadau o "darparwr cofrestredig" ac "addysg drydyddol" yn rheoliad 2, mae teitl llawn y Ddeddf wedi'i gynnwys yn y cyfeiriadau at "adran 144(1) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022". Yn y cyfeiriadau hyn, dylid bod wedi defnyddio "Deddf 2022", yn hytrach nag ailadrodd teitl llawn y Ddeddf.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 2, mae diffiniad sy'n nodi mai ystyr "y Comisiwn" yw'r "Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil". Fodd bynnag, ni chyfeirir at y Comisiwn yn unman arall yn y Rheoliadau. Felly, nid yw'n glir pam yr ystyriwyd bod angen cynnwys y diffiniad hwn yn rheoliad 2.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Yn rheoliad 2, y diffiniad a roddir o "Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru" yw'r "ddogfen sy'n dwyn y teitl hwnnw a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, fel y mae'n cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd, ac sy'n cynnwys disgrifiadau o lefelau cymwysterau".

O ran hygyrchedd, efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r Rheoliadau gynnwys hyperlinc neu ddisgrifiad o leoliad y ddogfen hon, fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd, megis ar ffurf troednodyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

